

Safonau Disgwyliedig Gofynnol

Dyma'r safonau gofynnol mae'n rhaid i sefydliad eu cyfarfod er mwyn bod yn gymwys i gael arian gan Sefydliad Cymunedol Cymru:

Er mwyn bod yn gymwys am grant, mae'n rhaid cynnwys yr wybodaeth ganlynol fel safon ofynnol:

Llywodraethiant

- Corff Llywodraethu gydag o leiaf o 3 aelod (e.e. Aelodau Pwyllgor, Ymddiriedolwyr neu, ar gyfer cwmnïau, Cyfarwyddwyr). Os yw'r aelodau'n perthyn i'w gilydd, mae'n rhaid bod yna aelod annibynnol pob amser.
- Dylai'r Corff Llywodraethu gyfarfod o leiaf bob chwarter.
- Talu aelodau'r Corff Lywodraethu:
 - mae'n rhaid cynnwys y manylion mewn cytundeb ysgrifenedig ffurfiol
 - ar gyfer elusennau yng Nghymru a Lloegr, mae'n rhaid i hyn gael ei gynnwys yn y ddogfen lywodraethu neu ddogfen arall a gytunwyd gan y Comisiwn Elusennau neu'r Llysoedd
 - ar gyfer Sefydliadau Corfforedig Elusennol, mae'n rhaid i'r manylion hynny gael eu dangos yn glir yn y ddogfen lywodraethu
- Dylai'r ddogfen lywodraethu fod wedi'i llofnodi a'i dyddio gan y Cadeirydd neu Drysorydd y Corff Llywodraethu neu Gyfarwyddwr ac mae'n rhaid iddi ddatgan yn glir:
 - Nad yw'r Sefydliad er elw, neu fod yna gymal yn ei ddogfen lywodraethu yn dangos yn glir fod yr holl incwm yn cael ei ddefnyddio at ddibenion y sefydliad ac nad yw'n cael ei ddsbarthu i aelodau, rhanddeiliaid na pherchnogion.
 - Bod yna gymal diddymu / cloi ar gyfer asedau yn gofyn i'r asedau cael eu dosbarthu i sefydliad gyda nodau elusennol tebyg petai'r elusen yn cau.
 - Ar gyfer Sefydliadau Corfforedig Elusennol, mae'n rhaid i'r cymal diddymu / cloi ar gyfer asedau enwi'r sefydliad a ddewisir.

Ariannol

- Darparu'r cyfrifon swyddogol diweddaraf neu ddalen incwm / gwariant, fod wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y Cadeirydd neu Drysorydd y Corff Llywodraethu neu Gyfarwyddwr. Os yw'r ddogfen dros 18 mis oed, dylid cynnwys eglurhad.
- Darparu rhagolwg ariannol os yw'r sefydliad yn y 12 – 18 mis cyntaf o weithredu. Rhagolwg i gynnwys o leiaf:
 - Incwm a ragwelir
 - Gwariant a ragwelir
 - Ychydig o fanylion ynghylch cynhyrchu incwm
- O leiaf ddau nad ydyn nhw'n perthyn i'w gilydd i awdurdodi taliad

- Dylai fod gan y sefydliad cyfrif banc yn ei enw ei hun. Telir grantiau trwy trosglwyddiad BACS, felly gofynnir am ddatganiad banc diweddar neu slip talu mewn fel tystiolaeth o hyn.
- Fel Ariannwr Cyflog Byw, rydym ni'n annog pob sefydliad rydym ni'n eu hariannu i dalu Cyflog Byw, yn hytrach na'r isafswm cyflog, i bob gweithiwr. Byddwn yn gofyn y cwestiwn hwn fel rhan o'n proses ymgeisio.

Diogelu

- Polisi diogelu yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio.
- Dylai'r corff llywodraethu, sydd â'r cyfrifoldeb yn y pen draw, sicrhau fod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei drefnu ar Bolisi Diogelu'r sefydliad.
- Hyfforddiant diogelu ar gyfer yr holl staff a gwirfoddolwyr sydd â chysylltiad wyneb yn wyneb gyda phlant a phobl ifanc a / neu oedolion bregus:
 - Rhaid i'r hyfforddiant fod yn briodol ar gyfer natur y gwaith, gan gynnwys polisiau a gweithdrefnau'r sefydliad, a dylid adolygu'r hyfforddiant yn rheolaidd.
- Rhaid cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Disclosure Scotland neu Access NI ar bawb sy'n gweithio gyda phlant a / neu oedolion bregus (Gallai hynny gynnwys staff, y pwyllgor rheoli, ymddiriedolwyr neu wirfoddolwyr)
- Mae'r Polisi Diogelu'n cynnwys:
 - diffiniad o ddiogelu ac amlinelliad o'r ymrwymiad i ddiogelu a gwarchod lles pawb sy'n defnyddio'i wasanaeth.
 - diffiniad o oedolion bregus a'r wahanol mathau o gam-drin sy'n cael ei brofi gan blant ac oedolion bregus.
 - camau clir i'w cymryd pe ceir digwyddiad neu ddatgeliad, gan gynnwys pwy i hysbysu a sut i gysylltu â nhw o fewn a thu allan i oriau agor.
 - Cynrychiolydd diogelu wedi'i enwi yn y sefydliad - Gallai hynny fod yn swydd ddynodedig megis Swyddog Amddiffyn Plant neu fel arfer, uwch aelod o staff, ac yn ddelfrydol gyda chysylltiadau yn yr awdurdod lleol, yr heddlu neu'r bwrdd ddiogelu lleol.
 - Y dyddiad y cafodd ei adolygu diwethaf, gan bwy a'r dyddiad a awgrymir ar gyfer yr adolygiad nesaf (mae'n ymarfer gorau i adolygu'n flynyddol).

Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd

- Polisi yn enw'r sefydliad sy'n ymgeisio.
- Dylid cynnwys cyfeiriad at Ddeddf Cydraddoldebau 2010
- Dylai'r datganiad polisi ddatgan nodau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd penodol y sefydliad, gan gynnwys staff, gwirfoddolwyr ac aelodau.
 - pwy sy'n gyfrifol am hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd
 - sut y byddwch yn gweithredu i gyfarfod â'r nodau
 - y gweithdrefnau ar gyfer monitro ac adolygu
 - sut y byddwch yn ymdrin a pha weithdrefnau sydd gennych ar gyfer cwynion ynghylch Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysedd
 - dyddiad y mabwysiadwyd y polisi a'r dyddiadau nesaf ar gyfer adolygu'r polisi (dylai'r polisi gael ei adolygu bob blwyddyn)

Polisiau Eraill

- Os byddwch yn gofyn am, yn derbyn neu'n cadw unrhyw ddata personol, bydd yn rhaid i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio â GDPR. Gallai'r dirwyon fod hyd at £20 miliwn neu 4% o incwm byd eang y sefydliad, ond mae hefyd yn bosibl i grwpiau elusennol lleol dderbyn dirwyon llai. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch Polisiau Diogelu Data a GDPR yn y Sector Elusennol yma.
- Os yw'ch sefydliad yn benthycu offer cyfrifiadurol, naill ai i wirfoddolwyr neu staff, dylai fod gennych bolisi Technoleg Gwybodaeth. Mae hyn nid yn unig er mwyn gwarchod yr offer, ond hefyd i sicrhau fod yr offer yn cael ei ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac nad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnydd anfoesegol nac annerbyniol.

Yswiriant

- Yn ôl y gyfraith mae'n rhaid i sefydliadau gwirfoddol fod ag yswiriant atebolrwydd cyflogwr dros yr holl wirfoddolwyr a staff nad ydyn nhw'n aelodau o'r teulu. Mae yswiriant atebolrwydd cyflogwr yn cynnwys y gost o dalu iawndal i wirfoddolwyr a staff sy'n cael eu hanafu neu'n mynd yn wael oherwydd gwaith.
- Mae'r llywodraeth yn cynghori unrhyw sefydliadau gwirfoddol sy'n berchen neu sy'n dal tir neu adeiladau, sy'n rhedeg digwyddiadau / gweithgareddau codi arian ac sy'n ymdrin ag aelodau'r cyhoedd, i ystyried yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Mae'r yswiriant pwysig hwn yn amddiffyn eich sefydliad yn erbyn hawliadau cyfreithiol oddi wrth unrhyw un a allai fod wedi'u hanafu neu golli neu'i ddifrodi eu heiddo personol o ganlyniad i'ch gweithgareddau.